Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Nick Ramsey AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 14 Chwefror 2017
Ein cyf: HVT/2687/fgb
Tudalen: 1 o 2

Annwyl Nick

PAPUR TRAFOD: YR HERIAU O RAN LLYWODRAETHU SY'N CAEL EU CREU GAN WASANAETHAU A ARIENNIR YN GYHOEDDUS OND A DDARPERIR YN ANUNIONGYRCHOL YNG NGHYMRU

Rwyf yn falch o amgáu copi ymlaen llaw i chi o'm papur trafod ar bwnc 'llywodraethu o hyd braich', fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Nid adroddiad archwilio arferol yw'r papur (ac felly nid yw'n cael ei osod yn ffurfiol gerbron y Cynulliad o dan bwerau fy astudiaethau). Yn lle hynny, ac er ei fod yn tynnu ar fy ngwaith archwilio blaenorol, mae'n nodi natur yr heriau sy'n wynebu'r rheiny sy'n gyfrifol am gynllunio a gweithredu trefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu o hyd braich yng Nghymru. Bwriedir i'r papur fod yn niwtral, yn hytrach na beirniadol, a'm bwriad yw iddo hyrwyddo dadl adeiladol ynglŷn â'r ffordd ymlaen mewn perthynas â'r materion llywodraethu sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ei bwrpas cyffredinol felly yw cefnogi gwelliant ar draws yr hyn sy'n dirwedd cyflawni gwasanaethau cyhoeddus cynyddol gymhleth.

Yn rhannol fel ymateb i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol yn rhai o'i adroddiadau yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i wella cysondeb o ran ei threfniadau goruchwylio mewn perthynas â chyrff hyd braich. Mae fy staff yn cysylltu â hwy er mwyn gweithredu ar y materion a godwyd yn y papur, ac fe gadeiriodd Syr Derek Jones a minnau sesiwn weithdy ddefnyddiol iawn ar y cyd gyda'i dîm uwch ef fis Tachwedd diwethaf i archwilio'r pwnc hwn yn fanylach.

Yn ogystal â chefnogi gwaith eich Pwyllgor, rwy'n bwriadu i'r negeseuon allweddol yn y papur gael eu lledaenu'n ehangach yn ystod 2017 drwy gyfrwng rhaglen barhaus Swyddfa Archwilio Cymru o ddigwyddiadau'r 'Gyfnewidfa Arferion Da'. Mae'r amserlen sydd gennyf mewn golwg ar gyfer cyflwyno'r papur fel a ganlyn:

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@archwilio.cymru

- **Canol mis Chwefror:** Cyhoeddi'r papur. Gan nad yw hwn yn adroddiad archwilio arferol, nid yw'n fwriad gennyf gyhoeddi hysbysiad ffurfiol ar gyfer y wasg. Yn lle hynny, byddwn yn dosbarthu'r papur drwy'r e-bost i randdeiliaid allweddol ochr yn ochr â gwahoddiadau i gofrestru ar gyfer 'gweminar'. Wedyn caiff y papur (yn Gymraeg ac yn Saesneg) ei lwytho i fyny ar ein gwefan.

- **12 Ebrill (dyddiad amodol):** Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal 'gweminar' (dull gweithredu yr ydym yn ei ddefnyddio'n llwyddiannus iawn yn ein gwaith ar y Gyfnewidfa Arferion Da), fydd yn golygu hwyluso panel o dri neu bedwar arbenigwr yn trafod y pwnc hwn yn fyw, a hefyd yn ateb cwestiynau ar-lein oddi wrth gyfranogwyr sydd wedi cofrestru ymlaen llaw. Os bernir ei bod yn llwyddiant, mae'n bosibl y gallai gweminarau pellach o'r fath ddilyn dros y misoedd canlynol.

- **Hydref 2017:** Swyddfa Archwilio Cymru i gynnal digwyddiadau seminar / gweithdy yng Ngogledd a De Cymru, o dan faner ein 'Cyfnewidfa Arferion Da', i annog trafodaeth ehangach a hwyluso dysgu ar y cyd. Gallai'r rhain yn hawdd gynnwys astudiaethau achos o drefniadau llywodraethu hyd braich llwyddiannus.

Yn allweddol i'r dull cyffredinol hwn mae ein bwriad a'n gallu i fod yn hyblyg, er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn ymddiddori ac yn cyfranogi mewn dadl, mewnbwn a gweithredu.

Edrychaf ymlaen at drafod cynnwys y papur gyda chi maes o law, yn ogystal â gweithio gyda chi i ddefnyddio ei gynnwys i lywio gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

Yn gywir

HUW VAUGHAN THOMAS
ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Amg: Papur trafod: Yr heriau o ran llywodraethu sy'n cael eu creu gan wasanaethau a ariennir yn gyhoeddus ond a ddarperir yn anuniongyrchol yng Nghymru